# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 15fed o Ebrill 2019 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton, Griffith Evan Thomas

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Datgan diddordeb:

   Cynghorydd Bethan Lawton - eitem 7 - toiledau cyhoeddus

3. Derbyn cofnodion 18 Mawrth 2019:

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig a'r Cynghorydd Alan H. Jones yn eilio.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101656 | £183.37 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101657 | £45.80 |
| Morris & Bates | Cyfreithiol | 101658 | £500.00 |
| Jones & Jones | Cae Chwarae | 101659 | £475.20 |

   **PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau.

5. Pympiau Dŵr Hanesyddol - Ffensio:

   **PENDERFYNIAD:** I ohirio'r mater tan mis Mai 2019.

   Oddeutu 7:25 bu i'r Cynghorydd Griffith Evan Thomas gyrraedd y cyfarfod

6. Liz Saville Roberts AS - Cau Banc Barclays Tywyn:

   Derbyniwyd e-bost gan yr Aelod Seneddol oedd yn cynnwys ymateb y bu iddi dderbyn gan Barclays i'w chais i'r banc ohirio cau'r banc tan fis Medi, yn hytrach nac yn fis Mehefin. Yr oedd ymateb anffafriol i gais i ohirio cau'r gangen, ond 'roedd Barclays yn adrodd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn ceisio canfod lleoliad ar gyfer peiriant ATM yn nhywyn.

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan yr Aelod Seneddol.

7. Cyngor Gwynedd - Toiled Cyhoeddus:

   Bu i'r Cynghorydd Bethan Lawton ddatgan buddiant sydd ddim yn rhagfarnu - ei swyddogaeth fel Cynghorydd Sir Gwynedd - a bu aros yn y cyfarfod.

   Nodwyd bod goleuadau yn cael eu gadael ymlaen drwy'r a byddai goleuadau LED ynghyd a synhwyrydd symudiad yn lleihau costau.

   **PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a gofyn am yr isod:
   Tymor byr - Goleuadau LED a synhwyrydd symudiad yn y toiledau. Bin newydd, teclyn sy'n dal sebon a theclyn papurau sychu dwylo/neu beiriant sychu dwylo yn nhoiled y dynion a'r merched.
   Hirdymor - Trosi un o'r toiledau yn doiled "unisex" gyda'r ail ar gyfer yr anabl, gyda darpariaeth ar gyfer newid napiau.

8. Un Llais Cymru - cyngor ar gyfethol aelodau:

Yr oedd cyngor wedi ei dderbyn gan Un Llais Cymru, yn egluro'r gyfraith y tu ôl i gyfethol aelodau, sef bod angen i ymgeiswyr gadarnhau yn ysgrifenedig eu bod yn cydymffurfio a'r meini prawf yn Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac nad ydynt wedi eu gwahardd yn unol ag Adran 80 o'r Ddeddf.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan Un Llais Cymru.

9. Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru - cyngor ar lwfansau cynghorwyr:

Adroddwyd bod y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru wedi cadarnhau bod y mater o dalu lwfansau i Gynghorwyr sydd wedi gadael y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn fater i'r Cyngor benderfynu.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan yr aelod o'r cyhoedd.

10. Seafarers UK - Chwifio'r Faner Goch:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. Cymdeithas Prif Swyddogion Cynllunio Cymru - arolwg Cynghorau Cymuned a Thref:

Nodwyd bod dau awdurdod cynllunio yn agos iawn i'w gilydd.

**PENDERFYNIAD:** Y Clerc i'w gwblhau ar ran y Cyngor.

12. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- Y Pafiliwn yn iawn
- Ffiniau'r cae chwarae yn iawn
- Angen cadw llygaid ar y rhwystrau o amgylch y cae pêl-droed

**PENDERFYNIAD:** I ofyn wrth ROSPA edrych ar y rhwystrau sydd o amgylch y cae pêl-droed.
Y clerc i gysylltu gyda'r contractwr, Mr B.J.Owen er mwyn trafod y gwaith atgyweirio i'r pafiiwn

13. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Adroddwyd bod y nifer sydd yn mynychu'r clwb wedi lleihau ers i'r clociau newid. Adroddwyd hefyd bod rhywun wedi rhoi rhodd o fwrdd dartiau i'r clwb, ac efallai bod ail-set o oriadau ar gyfer y bwrdd pŵl gan cyn-aelod o staff Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

14. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

- Cyngor Gwynedd yn ail-drefnu Gwasanaeth Oedolion, sef gwasanaeth yn y cartref. Bwriad ydy gosod tendrau fesul ardal, gyda un cwmni preifat yn darparu'r gwasanaeth mewn un ardal, posibilrwydd y bydd Cyngor Gwynedd yn darparu'r gwasanaeth yn rhai ardaloedd. Byddai'r drefn newydd yn caniatáu fwy o ryddid o'r darparwr ddarparu beth mae'r defnyddiwr gwasanaeth angen. Ni fydd y drefn newydd o reidrwydd yn arwain ar arbediad ariannol.
- Ysgol Craig Aderyn yn parhau i fod yn llawn, gyda 34 disgybl yn un dosbarth. Mynegwyd pryder bod plant yn teithio milltiroedd e.e. o Aberdyfi, o ganlyniad i hynny nid oedd lle ar gyfer plant lleol a phlant o Fryncrug.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth

15. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod arwydd llwybr cyhoeddus ger Cil Parc wedi ei osod.

Trafodwyd marc y llanw uchel yn Aber Dysynni, ac efallai bod y marc wedi symud.

| | |
|---|---|
| **PENDERFYNIAD:** | I dderbyn y wybodaeth parthed yr arwydd.<br>I ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru parthed y marc neu linell y llanw uchel, gan ofyn yn union ble mae'r llinell ym Mryncrug, yw'r llinell wedi symud ac os ydy, pryd. Gan hefyd ofyn am y rheswm dros symud y llinell, oherwydd bod goblygiadau i breswylwyr o safbwynt yswiriant i'w cartrefi a'r risg o lifogydd.<br>I gynnwys ffensys o amgylch Maes Hyfryd fel eitem ar agenda mis Mai.<br>I gynnwys cyflwr arwyddion ffordd o gyfeiriad Llanegryn ar agenda mis Mai. |

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:20pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................